CIWB

Tasg 4

# Tri diwrnod

Darllenwch ddechrau'r darn eto.

| | |
|---|---|
| Helo.<br><br>Mae'r daith i'r Almaen yn wych ac rydyn ni wedi teithio llawer. Rydyn ni yn Dresden nawr am dri diwrnod. Rydyn ni'n cael amser gwych yma! Mae'r dref yn fodern iawn ac mae pethau diddorol iawn yma. | |

1. Beth ydy **three days** yn Gymraeg?

2. Beth ydy'r ddau air am **day** yn Gymraeg?

   ______ a ______

3. **Dydd** a **Diwrnod**

Fel arfer, rydyn ni'n defnyddio diwrnod gyda rhif, e.e.

- un **diwrnod**
- dau ddiwrnod
- tri diwrnod

Beth ydy'r geiriau Cymraeg am ...?

four days

five days

six days

seven days

eight days

twelve days

4. **Nos** a **noson**

Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

night

fortnight

Fel arfer, rydyn ni'n defnyddio noson gyda rhif, ond cofiwch, mae'r gair noson yn fenywaidd, felly:

- un **noson**
- dwy noson
- tair noson
- pedair noson

Beth ydy ...?

two nights

four nights

five nights

six nights

seven nights

CIWB

eight nights

twelve nights

Cofiwch hefyd:

**Noswaith dda!**
**Good evening!**

**Nos da!**
**Good night!**

| Geirfa | |
|---|---|
| rhif | number |
| benywaidd | feminine |